# NERTH

# NERTH

(Etholiad Cyffredinol1970)

**Yn eich Pleidlais**

**trwy eich Aelod Seneddol**

**i Adeiladu dyfodol gwell**

**ar gyfer Diwydiant Newydd**

**ar gyfer Cymdeithas Newydd**

**er heddwch**

**gyda**

**Phlaid**

**Cymru**

***6ch.***

*Cyhoeddwyd gan Blaid Cymru, 8, Queen Street, Caerdydd ac argraffwyd gan Commercial & Sporting Printers Ltd., Plantaganet Street, Caerdydd.*

# Eich Pleidlais

MAE nerth yn eich pleidlais. Peidiwch a'i wastraffu.

Gall weithio drosoch, dros eich ardal a thros Gymru.

Bydd pleidlais dros un o'r pleidiau eraill yn dangos iddynt y gallant barhau i'ch anwybyddu chi a'ch problemau yn eu dull arferol. Bydd Cymru'n llusgo ar ôl pawb arall fel arfer.

Ond bydd pob pleidlais ychwaneg dros Blaid Cymru yn cyfrif o ddifri. Bydd yn ysgwyd y Llywodraeth, ac yn ei gorfodi i dalu sylw; bydd yn gorfodi'r Llywodraeth, i ddeall o'r diwedd nad ydym yn fodlon ar y sefyllfa bresennol; ein bod yn mynnu rhywbeth amgenach.

**Bydd yn gweithio drosoch chi trwy orfodi'r Llywodraeth i sicrhau gwaith a chyfle newydd o bob math i chi a'ch plant; i wella'r ffyrdd a rheilffyrdd eich ardal i atal diboblogi'r ardaloedd gwledig a'r cymoedd diwydiannol fel ei gilydd; i wneud rhywbeth ynglŷn a gwarth y gyfundrefn brydlesoedd.**

Bydd pleidlais gyda Phlaid Cymru'n dangos ein bod ni'n deffro yng Nghymru; bydd yn sicrhau sylw gwleidyddol i'n problemau. *Bydd unrhyw bleidlais arall yn bleidlais dros ddifaterwch gwleidyddol, pleidlais dros adael i bethau ddirywio yn eich ardal chi a phob rhan arall o Gymru tra bo ardaloedd eraill ym Mhrydain yn mynd ati i ymosod ar y gwaith gwefreiddiol o foderneiddio.*

## Eich Aelod Seneddol

GALL eich Aelod Seneddol fod yn rymus—os sieryd drosoch chi.

Ond yn hytrach na hynny mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad dros eu plaid. Chwipiaid eu plaid sy'n dweud wrthynt sut i siarad a phleidleisio; nid ydynt yn siarad drosoch chi, na thros Gymru.

Maent yn cynrychioli eu plaid, yn hytrach na'r bobl—ac fe reolir yr holl bleidiau hyn, ar wahan i Blaid Cymru, o Lundain. Mae'n amhosibl i'r ychydig aelodau Cymreig sy'n perthyn iddynt ddylanwadu mewn dim o bwys ar eu polisiau. Pleidleisiant yn ôl polisi a luniwyd gydag anghenion Lloegr yn bennaf mewn golwg. Nid ydynt yn pleidleisio yn ôl eich anghenion chi nac anghenion Cymru.

**Ond byddai hyd yn oed un Aelod Seneddol o Bleidiwr yn gwneud byd o wahaniaeth. Byddai'n rhydd i siarad drosoch chi a Chymru. Byddai'n annog polisiau Plaid Cymru a lunir gennych chi a phobl debyg i chi, gyda golwg ar eich anghenion chi. Byddai'n rhydd i fynnu pethau yn eich enw chi, heb ei lyffetheirio gan wleidyddiaeth Seisnig.**

Plaid Cymru yn unig all roi i chi nerth trwy eich Aelod Seneddol.

# Eich dyfodol

OND er y byddai'r nerth i dynnu sylw at eich problemau chi ac i fynnu bod y llywodraeth yn ceisio eu datrys yn welliant mawr ar y sefyllfa bresennol–nid yw'n ddigon.

Yr hyn y mae ei angen yw'r gallu i benderfynu beth i'w wneud ac i weithredu yn ôl y penderfyniad hwnnw—y gallu i ddechrau ar y gwaith ein hunain yn hytrach na phledio—a hynny'n ofer—ar i rywun arall wneud rhywbeth drosoch.

Yr angen yw am senedd ddemocrataidd—ac mae gennych hawl i hynny, tebyg i bob wlad arall.

**Ni fyddai eich Llywodraeth eich hunan byth yn caniatau** i'ch plant symud oddi cartref am nad oedd digon o waith iddynt; *ni fyddai'n caniatau i'r rhan fwyaf o'n siroedd golli pobl yn gyson yn y modd yma (mae naw o 13 sir Cymru â phoblogaeth lai yn awr nag oedd ganddynt pum mlynedd yn ôl).*

Ni fyddai wedi caniatau'r dirwasgiad a'r diffyg gwaith echrydus a ddaeth i'n rhan, oherwydd buasai wedi sefydlu llawer iawn mwy o ddiwydiannau cynhyrchu yn sail sicr i'n heconomi:

**Ni fyddai byth yn caniatau rheibio eich adnoddau crai—megis dŵr a gymerir heb ddim tâl o gwbl, a glo, a werthir am brisiau afresymol o isel i noddi diwydiant yn Lloegr:**

Ni fyddai byth yn caniatau i chi gael eich torri i ffwrdd o bob datblygiad diwydiannol a chyfleusterau cymdeithasol trwy ddinistrio eich rheilffyrdd ac esgeuluso'r ffyrdd:

*Ni fyddai byth yn caniatau i'ch rhieni a'u rhieni hwy grafu bywoliaeth prin ar bensiwn isel a chymorth 'prawf moddion', ond byddai'n sicrhau bywyd llawn di-bryder iddynt yn eu hen ddyddiau fel y gwna cenhedloedd bychain eraill megis Denmarc a New Zealand:*

Ni fyddai Llywodraeth Gymreig byth yn caniatau bygwth eich cartrefi gan gyfundrefn prydlesoedd anghyfiawn ac estron:

Ni fyddai byth yn caniatau i fywyd diwylliannol a chymdeithasol eich ardal ddirywio trwy ddiffyg cyfleusterau addas a seiliau economaidd sicr i'r gymdeithas leol:

**Ni fyddai byth yn caniatau i'r iaith Gymraeg farw oherwydd diffyg cydnabyddiaeth swyddogol. Byddai'n trin pawb ohonom sy'n byw yma yng Nghymru yn aelodau cyflawn a chyfartal o'r genedl, a chan bawb hawl i ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg fel y mynno ar bob busnes swyddogol.**

Byddai unrhyw lywodraeth a etholid gennych chi yn ymosod ar y problemau hyn ar unwaith—ni fyddai raid iddynt aros flwyddyn ar ôl blwyddyn ar waelod agenda rhyw lywodraerh yn Llundain.

*A byddech yn rhydd i ethol y llywodraeth a ddewisech; ni fyddai'n rhaid i chi dderbyn llywodraeth a ddewisid gan fwyafrif anghymreig. Eich llywodraeth chi fyddai unrhyw lywodraeth yng Nghymru, yn ymosod ar eich problemau chi yn ôl eich dymuniadau chi.*

# Diwydiant newydd

MAE eich dyfodol yn dibynnu ar ddatblygu nerth ac ynni diwydiannol—mesurir eich safon byw yn ôl faint o ynni a ddefnyddir gennych.

Yr ydych yn ffodus—yr ydych yn byw mewn gwlad a allai fod ymhlith gwledydd cyfoethocaf y ddaear.

**Glo, dur, alcam, alwminiwm, dŵr, trydan, trydan dŵr, ynni atomig, purfeydd olew—mae'r rhain i gyd, a digonedd ohonynt, gan eich gwlad. Y rhain yw sylfaen pob datblygiad economaidd.**

Ond mae datblygu economaidd yn dibynnu ar gyfleusterau trafnidiaeth modern, ac fe nacwyd y rhain i chi. Fe dynnir i fynu eich rheilffyrdd, na fuont erioed yn rhai da; mae eich ffyrdd yn droellog, yn llawn tyllau ac yn hollol anaddas i anghenion yr oes. Tra bo cenedl fach fel y Belg yn cwblhau mil o filltiroedd o ffyrdd moduron, nid oes hyd yn oed filltir ohonynt yng Nghymru.

Ni fydd neb yn cymryd eich anghenion trafnidiol o ddifrif nes i ni gael Bwrdd Trafnidiaeth Cymreig. Unig dasg bwrdd o'r math fyddai agor eich ardal chi, a phob ardal arall yng Nghymru, i gyfleusterau trafnidiaeth modern a chyflym o bob math.

*Y pryd hynny, ac nid tan hynny, y gellir elwa'n effeithiol ar ein posibiliadau ym myd ynni economaidd.*

Dylid sefydlu Bwrdd Ynni Cymreig i gyd-gordio cyflenwad pob math o ynni, a dylid sefydlu hefyd Awdurdod Datblygu Economaidd i wneud y defnydd gorau ohono.

Byddai'r Awdurdod hwn yn ymgymryd â gwaith ymchwil i bosibiliadau economaidd eich ardal; byddai'n rhoi gwybodaeth a chyngor ar faterion gwyddonol a thechnegol a phroblemau marchnata—byddai'n paratoi'r cynlluniau ar gyfer datblygiad.

Byddai'n ymgymryd â datblygu cyhoeddus lle byddai angen am hynny, a sicrhau grantiau a benthyciadau i ymgymeriadau preifat a chydweithredol. Byddai'n clirio safleoedd diwydiannol, ac yn adeiladu ffatrioedd, yn rhoi grantiau ar gyfer peiriannau a thai, a threfnu trethi isel yn ystod blynyddoedd cyntaf unrhyw ymgymeriad newydd.

**Byddai'r Awdurdod Datblygu Economaidd hefyd yn cynorthwyo wrth sefydlu'r diwydiannau eilradd ac ysgafn y mae eu hangen mor fawr yng Nghymru, hyd yn oed yn yr ardaloedd diwydiannol. Byddai'n sicrhau y defnyddid llawer iawn mwy o'r glo a'r dur a'r ynni a gynhyrchir yma (llawer iawn yn uwch y pen o'r boblogaeth na'r hyn a geir yn Lloegr) yma yng Nghymru, i sicrhau economi eang a chytbwys gyda phob math o gyfle newydd i'ch plant.**

Rheolid y diwydiant glo yng Nghymru gan Fwrdd Glo Cymreig, a datblygid y diwydiannau is-gynhyrchion. Mae dyfodol y diwydiant yn gorwedd yn y cyfeiriad hwn (fel y dangosodd Plaid Cymru mor bell yn ôl â 1928) yn hytrach nag i'w ddefnyddio yn danwydd yn unig.

*Dylai Bwrdd Dwr Cymreig reoli datblygiad holl adnoddau dwr Cymru, gan sicrhau cyflenwadau digonol ar gyfer anghenion diwydiannol ac eraill yng Nghymru a chan*

*allforio hynny fyddai dros ben i Loegr am bris teg. Dychwelid yr elw i'r ardaloedd gwledig i gryfhau gwaith yr Awdurdod Datblygu Economaidd — i sefydlu ffatrioedd i drin cynnyrch amaethyddol, a choed, i wella cyfleusterau cymdeithasol a diwylliannol, a thrwy hyn oll atal y diboblogi echrydus a geir ar hyn o bryd yn yr ardaloedd gwledig.*

Awgrymwyd y math yma o ddatblygu economaidd gan Blaid Cymru yn y tri-degau. Fe brofwyd gwerth yr awgrymiadau hyn pan osodwyd rhai tebyg ar waith gan Roosevelt yn ei 'New Deal' yn America. Cafwyd canmoliaeth uchel i awgrymiadau Plaid Cymru gan y Dr. Lilienthal, Cadeirydd cyntaf Awdurdod Dyffryn Tennessee.

**Mewn amaethyddiaeth, gellid ymosod o'r diwedd ar broblemau ffermwyr Cymru—yn hytrach na cholli golwg arnynt yn wyneb y problemau gwahanol sy'n wynebu ffermwyr Lloegr. Byddai llawer iawn mwy o gyngor yn barod at wasanaeth y ffermwr bach, a llawer iawn mwy o grantiau ar gyfer gwella tir a pheiriannau ac adeiladau, ac er mwyn datblygu cynlluniau prynu a chynhyrchu a marchnata cydweithredol.**

Cyfyngid coedwigo i dir na ellid ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol, ond lle gellid defnyddio'r coed i gynorthwyo'r ffermwyr—e.e. trwy greu lloches rhag y gwynt. Byddai cyngor a chymorth ariannol ar gael i'r ffermwyr blannu coed at ddibenion fel hyn.

Sicrheid mwy o waith yng Nghymru trwy sefydlu ffatrioedd i drin cynnyrch y coedwigoedd yma yng Nghymru.

## Cymdeithas newydd

GALL datblygiad diwydiannol o'r math yma arwain at gymdeithas newydd—cymdeithas fo'n seiliedig ar barch at hawliau'r unigolyn yn ei waith ac yn ei gymdeithas.

Nid yw canoli eiddo a grym yn nwylo'r ychydig cyfalafwyr yn rhan o'ch tradoddiad chi fel Cymro, nac yn nwylo'r wladwriaeth a'i biwrocratiaid. Eich traddodiad chi yw rhannu'r pethau hyn yn llawer iawn mwy cyfartal rhwng aelodau cymdeithas. *Mae'r ymadrodd 'Property Owning Democracy' yn un ddiweddar yn Lloegr; 'roedd 'perchentyaeth' yn rhan o gyfraith Cymru dros 1,000 o flynyddoedd yn ôl.*

Yr ydym wedi gweithio gyda'n gilydd mewn cydweithrediad yng Nghymru. Fel hyn y sefydlwyd ein hysgolion a'n Prifysgol, ein Heisteddfod a'n Hamgueddfa. Yr ydym wedi gweithio yn y dull hwn mewn diwydiant ac amaethyddiaeth—e.e. ystad Glanllyn ym Meirionnydd a chynlluniau Plaid Cymru ar gyfer pwll glo Cwmllynfell.

Rhaid meithrin yr arfer yma. Rhaid i chi gyfrannu yn rheolaeth a pherchenogaeth eich diwydiant, rhaid i chi gael pob cyfle posibl i gymryd rhan mewn gweithrediadau diwylliannol ac mewn mabolgampau o bob math. Rhaid sefydlu cyfleusterau llawn at hyn ymhob rhan o'r wlad, gyda chanolfannau cymdeithasol ymhob tref a phentref, ac ymhob rhan o'r trefi mawr.

**Rhaid sicrhau tai i bawb am brisiau neu delerau arwystl y gallant fforddio. Yn y cyfamser, rhaid diogelu tenantiaid tai preifat a thai cyngor yn erbyn rhentiau afresymol ac yn erbyn eu troi allan. Rhaid dileu'r gyfundrefn prydlesoedd, na fu'n rhan erioed o gyfraith Gymreig.**

Rhaid i'ch rhieni neu eu rhieni hwy fwynhau'r bywyd braf dibryder y maent yn edrych ymlaen ato. Rhaid codi'r pensiynau i safon eiddo gwledydd eraill megis New Zealand, a rhaid iddynt godi gyda phob codiad yn y safon byw a rhaid iddynt fod yn ddigon i sicrhau na fyddo raid i neb wynebu 'prawf moddion' er mwyn cael ychydig o gymorth ychwanegol.

## Heddwch

GELLWCH *fyw mewn cymdeithas o'r math yma. Ond yn gyntaf, rhaid peidio â thalu'r pris aruchel o fod yn rhan ddinod o wladwriaeth sy'n gwastraffu eich cyfoeth chi wrth geisio gadw'r myth o fod yn allu mawr.*

Trwy sicrhau'r hawl i ddefnyddio eich cyfoeth a'ch adnoddau eich hunan yn gall er adeiladu dyfodol gwell i chi eich hunan, byddwch hefyd yn sicrhau'r hawl i gymryd rhan o'r diwedd mewn materion rhyngwladol.

Ar hyn o bryd, mae Cymru'n gwbl ddinod, a fawr neb yn gwybod dim oll amdani. Gyda'n llywodraeth ein hunain, bydd gennym lais a phleidlais yng nghynghorau'r byd (a chofiwch fod 28 o wledydd llai na Chymru eisoes yn aelodau cyflawn o'r Cenhedloedd Unedig).

**Mae 'Nerth er Heddwch', wrth gwrs, yn slogan plaid arall. Ond mewn gwirionedd yr unig nerth all sicrhau heddwch yw awdurdod effeithiol rhyngwladol, y cynrychiolir pob cenedl ynddo ac y byddo pob cenedl yn barod i dderbyn ei ddyfarniad. Tra naceir i'ch cenedl chi, neu unrhyw genedl arall, yr hawl i osod trefn ar ei phethau ei hun fe wanychir egwyddorion cyd-genedlaetholdeb—mae'r hen syniadau imperialaidd yn dal, a'r holl deimladau cas sy'n bodoli yn herwydd hynny.**

Os ydym am greu nerth er heddwch, rhaid i ni fod yn rhydd i helpu adeiladu'r heddwch hwnnw.

## Plaid Cymru

DYNA yw polisi Plaid Cymru, a sefydlwyd gan chwech o ddynion ifainc o wahanol rannau o'r wlad ym 1925—yr unig blaid wleidyddol a sefydlwyd erioed gan Gymry yng Nghymru dros Gymru—yr unig blaid sy'n codi ofn ar y rhai sydd mewn awdurdod ac sy'n cael ei gwahardd felly, mewn modd cwbl annemocrataidd, rhag siarad â chi ar radio a theledu.

Mae gan y blaid ryw 15,000 o aelodau a miloedd lawer o gefnogwyr eraill. Mae dros 100 o'i haelodau yn eistedd ar Gynghorau lleol, ac y maent eisoes yn gwneud gwaith gwerthfawr iawn dros Gymru yn eu hardaloedd eu hunain. Penderfynir polisi'r Blaid gan ei Chynhadledd Flynyddol y cynrychiolir pob aelod ynddi trwy'r canghennau lleol.

**Mae'r Blaid wedi chwarae rhan bwysig iawn mewn nifer o fuddugoliaethau pwysig—sefydlu gwasanaethau radio a theledu arbennig i Gymru, cydnabod Caerdydd yn brif-ddinas Cymru, y cynadleddau cenedlaethol o Awdurdodau Lleol Cymru i drafod materion o bwys cenedlaethol, y sylw arbennig a roir i faterion Cymreig trwy benodiad aelodau o'r Llywodraeth gyda chyfrifoldeb arbennig dros Gymru, a'r Cyngor Ymgynghorol i Gymru etc.—ac o'r diwedd, gydnabyddiaeth gan y pleidiau eraill fod gan Gymru broblemau economaidd arbennig ac felly fod raid ei thrin yn endid economaidd yn ogystal ag yn endid ddiwylliannol.**

Cafwyd yr holl gynnydd yma heb unrhyw nerth sylfaenol, ac er i ni fethu â sicrhau llwyfan i'n syniadau ar na radio na theledu. *Meddyliwch am eiliad beth ellid ei sicrhau perhoddid ychydig mwy o nerth o'r tu ôl i'r blaid hon—eich plaid genedlaethol.*

Yr ydym yn edrych i'r gorffennol yn unig er mwyn gweld lle mae'n seiliau, fel y gallom adeiladu'n fwy sicr at y dyfodol. Nid ydym yn fodlon ar Gymru sydd yn Wlad ein Tadau yn unig. Os ydyw Cymru yn wlad eich tadau neu beidio, yr ydych yn byw yma. Os ydych am aros yma, ac am i'ch plant dyfu i fynu i fwynhau bywyd llawn a chyfoethog yma, yr ydych yn Gymro neu'n Gymraes. A chyda'n gilydd, gallwn wneud y dyfodol hwn yn bosibl. **Gallwn wneud Cymru yn**

# Wlad ein Plant

# Cymru Newydd

MAE Plaid Cymru'n blaid realistig. Yr ydym yn gweld posibiliadau enfawr Cymru—ei hadnoddau naturiol enfawr a'n holl gynnyrch diwydiannol. Yr ydym yn sylweddoli ein bod ni'n llusgo ar ôl y rhan fwyaf o wledydd Ewrop ar waethaf hyn oll—yn ein safon byw, graddfa ein cynnydd diwydiannol, cyfle i'n pobl ifainc, ein dull o drin yr hen bobl ac mewn cyfleusterau cymdeithasol a diwylliannol o bob math.

**Yr ydym yn gweld y gallem ddal y gwledydd eraill hyn i fyny pe bai gennym lywodraeth effeithiol, ac yn wir y gallem gymryd y blaen arnynt a datblygu yn un o wledydd mwyaf modern y byd—nid yn unig yn ein dull o ofalu amdanom ein hunain, ond hefyd trwy sicrhau llawer iawn mwy o gymorth o'n hadnoddau a'n profiad gwerthfawr i wledydd eraill llai ffodus.**

Ond yr ydym yn sylweddoli, hefyd, na ellir yr holl bethau hyn dros nos. *Nid breuddwyd yn unig o'r hyn allai fod yw ein rhaglen dros Gymru, ond yn hytrach gynlluniau manwl o'r hyn y rhaid ei wneud yn awr, o fewn y blynyddoedd nesaf, os ydyw Cymru i ddal yn genedl ac i gael hyd i'r nerth hynny i ddatblygu ei holl bosibiliadau.*

Dyma'r cynllun y byddwch yn pleidleisio drosto os pleidleisiwch gyda Phlaid Cymru yn yr etholiad nesaf. Gyda digon o bleidleisiau i'n cefn, gallwn orfodi pa lywodraeth bynnag a ddelo i rym i weithredu yn ôl yn cynllun hwn. Byddai hyn yn dod â bywyd newydd i Gymru, ac yn sgil hynny byddai'r Cymry yn ad-ennill eu hunan-hyder a chyn bo hir, byddent yn mynnu'r hawl i lywodraethu eu pethau eu hunain a dechrau ar y gwaith o adeiladu trefn gyd-wladol dderbyniol, yn lle gwneud dim ond siarad amdani.

## Datblygu Economaidd

YN y rhan fwyaf o Gymru, ni cheir diwydiant o gwbl, ar wahan i amaethyddiaeth. Hyd yn oed yn yr 'ardaloedd diwydiannol', yr ydym yn dibynnu ar un neu ddau o ddiwydiannau trymion fel glo a dur. Mae colli pobl yn felltith yn yr ardaloedd gwledig a'r ardaloedd diwydiannol fel ei gilydd. Rhaid wrth ymdrech fawr i ddod ag economi sicr a chytbwys i bob rhan o'r wlad—ni ellir gadael hyn i hap a damwain, rhaid ei gynllunio.

**Ac ni thâl y cynlluniau hynny ddim os na ellir eu gweithredu. Ac ni thâl cynlluniau ar gyfer sefydlu diwydiannau newydd ychwaith heb ffyrdd a rheilffyrdd addas, heb dai i'r gweithwyr a chyfleusterau cymdeithasol eraill.**

Yr angen yng Nghymru yw awdurdod datblygu â galluoedd eang iddo tebyg i'r rheini sy'n cael eu sefydlu ar hyn o bryd mwn rhannau eraill o Brydain. Mae'n anodd deall paham na sefydlwyd awdurdod o'r math cyn hyn. Gosodwyd y syniad gerbron gan Blaid Cymru yn y tri-degau, a phe bai'r llywodraeth wedi gweithredu ar y syniad y pryd hynny, byddai Cymru wedi osgoi agweddau gwaethaf blynyddoedd y dirwasgiad.

## T.V.A.

'Roedd y syniad yn rhan o'r 'New Deal' yn Unol Daleithiau America, ac fe'i brofwyd yn effeithiol dros ben yn Nyffryn Tennessee. 'Roedd yr arweinwyr yno yn hael eu clod i Blaid Cymru am ei harweiniad yn y mater hwn, ond fe syrthiodd ar glustiau byddar ym Mhrydain o hyd.

*O'r diwedd, mae'r Llywodraeth yn gweld rhagoriaethau'r cynllun, ac fe arweiniodd nifer o drafodaethau rhwng Llywydd Plaid Cymru, Mr. Gwynfor Evans a'r Gweinidog Dros Faterion Cymreig, Syr Keith Joseph, at y syniad o gynllunio datblygiad economaidd Cymru yn y modd yma. Dyma oedd yr arwydd gyntaf am gynlluniau newydd y Llywodraeth ar gyfer datblygu 'rhanbarthol' ym Mhrydain.*

Ond er i'r holl beth gychwyn yng Nghymru, unwaith eto mae Cymru'n llusgo ar ôl—fe eir yng ngafael â phroblemau rhanbarthol Lloegr ynghynt na'n problemau ni, er bod ein problemau ni lawer gwaeth. Rhaid sefydlu Awdurdod o'r math yng Nghymru yn fater brys, gan gynnwys cynrychiolwyr adrannau'r Llywodraeth a Diwydiannau sydd wedi eu gwladoli, a hefyd gynrychiolwyr etholwyr Cymru, er mwyn sicrhau y datblygir ein heconomi er budd Cymru, ac nid er budd Bryste, Birmingham a Lerpwl.

## Arian

Rhaid i'r Awdurdod gael digon o arian at y gwaith—ymchwil i anghenion a phosibiliadau pob ardal, ymchwil marchnata a hysbysebu, ac anghenion tai ac anghenion cymdeithasol o bob math. Wedyn, gall gynnig grantiau a benthyciadau yn hyderus ar gyfer diwydiannau newydd, gall baratoi safleoedd ac adeiladu tai, a sicrhau ffyrdd a rheilffyrdd modern a sicrhau cyflenwad digonol o ynni a dŵr i bob ardal.

**Y prif bwynt ynglyn â'r Awdurdod yw fod rhaid iddo arwain yn y mater o symbylu datblygiad economaidd, ac nid eistedd yn ôl a chynnig peth cyngor i'r rheini fo'n gofyn amdano yn unig.**

## Trafnidiaeth

YR unig ffyrdd a rheilffyrdd da yng Nghymru yw'r ychydig hynny sydd yn ymestyn o rwydwaith drafnidiol Lloegr i gyrrion Cymru i'n hardaloedd diwydiannol. *Eu prif bwrpas yw mynd ag adnoddau crai a chynnyrch sylfaenol, megis glo a dur, allan o Gymru at wasanaeth diwydiant Lloegr, ac i agor mannau poblog Cymru i ganolfannau dosrannu busnes yn Lloegr.*

Ar wahan i'r ychydig eithriadau hyn, mae ffyrdd a rheilffyrdd Cymru ymhlith y rhai mwyaf cyntefig yn Ewrop. Mae'r ffyrdd yn droellog ac yn llawn tyllau, mae'r trenau (lle arbedir hwy hyd yma) yn araf, a rhaid newid trenau cynnifer o weithiau fel bo cerdded bron mor gyflym. Ar y ffyrdd neu'r rheilffyrdd mae'n haws ac yn gyflymach i deithio o ogledd Cymru i'r de trwy Loegr—neu, o'r gogledd Orllewin i'r De-orllewin, hyd yn oed trwy Iwerddon!

## Bwrdd Trafnidiaeth Cymreig

**Y rheswm amlwg dros y diffygion yma, yw am nad oes gan Gymru ei bwrdd trafnidiaeth ei hun i ymgymryd â'r gwaith datblygu. Fe'n clymir ni wrth Weinyddiaeth a Bwrdd Rheilffyrdd yn Lloegr sy'n rhoi'r rhan fwyaf o'u hamser i feddwl am anghenion Lloegr.**

Mae hyn, wrth gwrs, yn anhepgor, tra ystyrir Cymru a Lloegr yn un uned. Nid oes gennym ond 5% o boblogaeth Prydain yma yng Nghymru, felly ni allwn ddisgwyl llawer iawn o sylw gan bobl sy'n gyfrifol am Brydain i gyd. Y drefn sydd o'i lle. Rhaid wrth ein Bwrdd Trafnidiaeth ein hunain—ac unig waith y bwrdd hwnnw fyddai gwella trafnidiaeth o bob math yng Nghymru. Rhan fawr o'i waith fyddai sicrhau ffyrdd a rheilffyrdd modern rhwng de a gogledd Cymru, a phob rhan arall o'r wlad.

**Rhaid peidio â disgwyl i ddiwydiannau ymsefydlu a gwaeddu am gyfleusterau trafnidiol —gellid aros am byth i hynny ddigwydd. Rhaid sicrhau cyfleusterau trafnidiol yn gyntaf, fe ddaw datblygiad diwydiannol yn sgil hynny.**

A byddai rheilffyrdd modern yn dal i fod yn bwysig yn hyn oll—gyda rhwydwaith a wasanaethau cyflym a chyson rhwng yr holl brif drefi, trydaneiddio pob lein, moderneiddio'r drefn arwyddion, mwy o lefydd i'r trenau sefyll wrth ochr y lein, heb orsaf. Ni ellir cael hyd i'r holl ffeithiau ariannol am y rheilffyrdd Cymreig. Ond mae'n debyg fod y colledion yn isel iawn (e.e. mae ardal Caerdydd o'r Rhanbarth Orllewinol—ac mae'r ardal hon yn cynnwys saith o siroedd Cymru—ag incwm blynyddol o £16 miliwn yn fwy na'i gwario, cyn dibrisio a thaliadau llog etc.) ac mae'n debyg y gallai'r rheilffyrdd dalu eu ffordd yn hawdd yng Nghymru gydag ychydig mwy o foderneiddio doeth.

## Ynni a Diwydiant

YNNI yw sylfaen pob diwydiant. Rhaid wrth Fwrdd Ynni Cymreig i sicrhau cyflenwadau o bob math o ynni ymob rhan o'r wlad, ac i gydgordio gwaith y Byrddau Cenedlaethol y mae eu hangen i bob un o'r diwydiannau ynni.

Rhaid sefydlu Byrddau Cenedlaethol i Gymru i'r diwydiant glo a'r diwydiant trydan, i ddŵr ac i drydan-dŵr, ar batrwm Bwrdd Nwy Cymru. Mae llwyddiant aruthrol Bwrdd Nwy Cymru yn dangos beth ellir ei wneud o drin Cymru yn endid yn hytrach na'i rhannu, fel y gwnaethpwyd yn y diwydiannau eraill, rhwng rhanbarthau Seisnig.

**Gallai Bwrdd Glo Cymreig wneud i'r diwydiant glo dalu yn fuan iawn. A chyda diwydiannau is-gynhyrchion i gynyddu'r galw am lo ac i sicrhau gwaith arall yn yr ardaloedd glo, gellid sicrhau dyfodol hir a llewyrchus i'r cymdeithasau mwyngloddio y mae eu dyfodol mor ddu ar hyn o bryd.**

Rhaid gwneud ymdrech fawr hefyd, dan arweiniad yr Awdurdod Datblygu Economaidd, i sefydlu mwy o ddiwydiannau yng Nghymru a fo'n defnyddio'n dur a'n halcam. *Mae'r diwydiannau enfawr hyn yn rhy agored ar hyn o bryd i ddylanwad y farchnad am nwyddau treulio yn Lloegr ac yn dioddef fwyfwy gan gystadleuaeth dramor. Rhaid creu galw am ddur yma yng Nghymru i roi sylfaen sicr i'r farchnad, a thrwy hynny fe sicrheir bob math o gyfle diwydiannol newydd i'n pobl ifainc wrth iddynt ymadael â'r ysgol.*

Rhaid sicrhau gwaith i mwy o'r gwyddonwyr a'r technegwyr a hyfforddir yma yng Nghymru–rhaid sicrhau mwy o agoriadau newydd am brentisiaeth, a rhaid rhoi llawer iawn mwy o sylw i hyfforddi cyfarwyddwyr busnes—yn un peth trwy sefydlu Ysgol Hyfforddi Busnes megis Ysgol enwog Havard yn America.

## Canol Cymru — Eldorado Newydd

MAE pawb yn son am broblemau enfawr canolbarth Cymru; ond nid oes gan neb syniad sut i ddatrys y problemau hynny.

Ac eto, mae'r ateb yn gwbl amlwg i'r rheini fynno weld. Gallai canolbarth Cymru dyfu'n 'Eldorado' newydd—yr ardal economaidd fwyaf lewyrchus yn y Gymru newydd.

Mae'r ardaloedd diwydiannol traddodiadol yn colli eu gafael. Mae'r diwydiant llechi yng ngogledd Cymru ar y ffordd i lawr ers blynyddoedd, ac mae'r diwydiant glo yn neheudir Cymru yn ei ddilyn. Gyda datblygiad effeithiol, wrth gwrs, nid oes raid i'r diwydiant glo ddirywio mor bell. Trwy ddatblygu mwy a mwy o ddiwydiannau is-gynhyrchion i gynyddu'r galw am lo ac i sicrhau gwaith arall i lowyr sy'n dioddef gan y llwch neu a deflir allan o waith pan fo raid cau rhai o'r hen byllau, gellid sicrhau dyfodol gloyw i'r diwydiant glo o hyd.

Ond ni all ddal gafael ar y safle holl-bwysig a oedd ganddo yn y gorffennol. Mae dulliau newydd o gynhyrchu ynni ar gynnydd ac yn tyfu'n bwysicach na llosgi glo—ac yn arwain ymhlith y rhain y mae trydan dŵr.

## Dwr

**Yn wir, mae dwr yn tyfu yn un o'r adnoddau crai pwysicaf yn y byd. Rhaid wrth fwy a mwy ohono ar gyfer oeri ac at ddibenion diwydiannol eraill. Ac, wrth gwrs, gellir ei ffffrwyno ar gyfer creu trydan dwr. Mae arbenigydd sy'n gweithio gyda 'U.N.E.S.C.O.' wedi proffwydo y byddo dwr yr un mor werthfawr ag olew erbyn diwedd y ganrif.**

Mae gan ganolbarth Cymru ddigonedd o'r adnoddau crai gwerthfawr yma. Ar hyn o bryd, nid yw canolbarth Cymru'n elwa dim ar hynny, am i'r Llywodraeth a'r Blaid Lafur lyncu'r ddadl a roir gerbron gan ffyliaid fel Syr David Llewellyn—fod dŵr yn perthyn i Dduw, ac felly ni ellir mo'i werthu!

*Mae hyn yn wir yng Nghymru yn unig, wrth gwrs. Popeth yn iawn i'r Awdurdodau Seisnig a gymer ein dŵr ni am ddim werthu'r dŵr yna wedyn i'w cymdogion yn Lloegr. Beth bynnag, os yw dŵr yn perthyn i Dduw, beth am lo? Oni ddylai David Llewellyn roi ei ffortiwn deuluol yn ôl i'r eglwys?*

Rhaid wrth Fwrdd Dŵr Cymreig fyddai'n sicrhau cyflenwadau digonol ar gyfer holl anghenion Cymru ac yn gwerthu hynny fyddai dros ben i Loegr, fel y gwerthir unrhyw adnodau crai eraill. Gyda'r elw, gellid gwella cyfleusterau yn yr ardaloedd gwledig a sefydlu diwydiannau ysgeifn yno. Byddai'r gwaith o roi bywyd newydd yng ngwythiennau canolbarth Cymru wedi ei ddechrau.

**Dylid hefyd sefydlu Bwrdd Trydan Dwr i ddechrau ar y dasg o gynhyrchu trydan dwr yng Nghymru. Gellid cyfaddasu llawer o'r argaeau presennol i'r diben hwn, heb ymyrryd â'r defnydd a wneir o'r dwr yn y pendraw. Gyda chyfalaf bychan, gellid sicrhau ffynhonnell enfawr newydd o ynni, a byddai hyn yn rhoi sail economaidd sicr i ganolbarth Cymru ac i rannau helaeth o weddill y wlad. Gellid dod â phobl yn ôl i'r rhanbarthau gwledig, gellid adeiladu ffyrdd a rheilffyrdd newydd—yn wir, byddai raid wrthynt i gysylltu pob rhan o'r uned economaidd ffyniannus fyddai'n datblygu yng Nghymru.**

## Ffermio

Rhaid wrth bolisi amaethyddol newydd i Gymru, gyda symbyliad sylweddol i'r ffermwyr foderneiddio yn hytrach na bodloni ar greu clustog iddynt mewn amseroedd drwg.

*Nid yw'r un un polisi yn ddigon da i Gymru ac i Loegr—mae'r hinsawdd, y pridd, natur y tir, maint y ffermydd, natur y ffarmio i gyd yn wahanol iawn yng Nghymru i'r hyn ydynt yn Lloegr, ac mae polisi a lunir gydag anghenion Lloegr mewn golwg yn niweidiol i amaethyddiaeth Cymru.*

Rhaid i'r polisi newydd gynorthwyo'r ffarmwr bach a'r tyddynwr; rhaid rhoi grantiau mwy digonol ar gyfer gwella'r pridd, ac ar gyfer adeiladau a pheiriannau newydd. Rhaid wrth fwy o ymchwil ac o gyngor mewn materion megis ad-ennill tir gwael a dulliau cydweithredol o gynhyrchu a marchnata. Rhaid gollwng y pwysau sydd ar uno ffermydd, oherwydd er bod cynnyrch y dyn yn uwch mewn ffermydd mawr (am fod mwy o beiriannau) mae cynnyrch yr erw yn is nag ar ffermydd bach. Cyfanswm y cynnyrch sydd yn bwysig i ni a sicrhau gwaith i gynnifer o ddynion ag sydd modd. Mae hyn oll yn dangos y rheidrwydd am bolisi amaethyddol newydd a bywiog

## Ar Garreg y Drws

YN aml iawn, prin iawn yw'r elfen 'llywodraethol' mewn llywodraeth leol. Gweision Whitehall yn unig yw ein Hawdurdodau Lleol—yn rhedeg ar ei air, ac yn ceisio ei fendith ar bob peth.

Dyna a fwriadwyd iddynt fod. Ond gan nad oes gennym unrhyw gyrff etholedig eraill yng Nghymru i warchod ein buddiannau, rhaid i'n Hawdurdodau Lleol fod yn fwy ymosodol. Rhaid iddynt wrthod blygu i unrhyw orchymyn nad ydynt yn cytuno ag ef, a rhaid iddynt fynnu'r hawl i wneud pethau eraill, heb oedi nes cael bendith y gweinidog. A rhaid iddynt ddod at ei gilydd i ymladd yn effeithiol unrhyw fater fo'n effeithio ar Gymru gyfan.

Gall y Llywodraeth ddelio â rhyw un Awdurdod sydd yn ystyfnig yn awr ac eilwaith—ond byddai'n galed iawn arnynt pe bai raid iddynt wynebu ymgyrch genedlaethol—e.e. ymgyrch gan yr Awdurdodau Lleol i sefydlu eu diwydiannau eu hunain i gyflenwi rhai o'u hanghenion eu hunain, neu gynllun i ddefnyddio peth o grant y llywodraeth tuag at adeiladu ffordd ganol i Gymru.

## Cymdeithas Gymreig

Ar gwestiynau cenedlaethol, megis cau'r rheilffyrdd, neu effaith y grant cyfanswadd, neu prydlesoedd neu ail-ddatblygu canol trefi, gallent ymladd yn fwy effeithiol o lawer pe bai ganddynt gymdeithas â swyddogion parhaol. Gwastreffir symiau enfawr gan ein Cynghorau Lleol mewn aelodaeth i wahanol gymdeithasau Llywodraeth Leol Seisnig—ar wahan i daith i Eastbourne neu Blackpool i ychydig o'n cynghorwyr, nid yw Cymru'n elwa dim oll ar hynny. Byddai Cymru'n elwa llawer mwy ar gymdeithas effeithiol o Awdurdodau Cymru.

## Prydlesoedd

MAE'R gyfundrefn prydlesoedd yn achosi poen ac afiechyd dirfawr i nifer fawr o bobl—ac yn enwedig i hen bobl. Mae'n bosibl iddi gyflymu marwolaeth llawer un trwy'r poeni am golli cartref oes, am chwilio am gartref newydd, am dalu prisiau dychrynllyd o uchel am y rhydd-ddaliad, (yn aml gwerth rhai cannoedd y rhent tir blynyddol), ac am dalu'r biliau enfawr am atgyweirio a hawlir gan y meistr tir.

**Trefn Seisnig yw'r drefn hon, ac nid yw'n bodoli yn y ffurf sydd gennym ni ond tan gyfraith Seisnig. Mae Cymru bob amser wedi gwrthwynebu'r drefn, ac mae canlyniadau'r drefn yn waeth o lawer yng Nghymru nag ydynt yn Lloegr.**

Rhaid dileu'r gyfundrefn ar unwaith ar gyfer pobl sydd yn berchen eu tai eu hunain—pa un bynnag a ydyw'r meistr tir yn unigolyn preifat neu'n gyngor lleol neu ryw gorff arall. Rhaid bwrw golwg dros holl agweddau eraill y gyfundrefn hefyd a'i newid yn llwyr er gwell.

## Codi o'r llwch

DYWEDIR yn aml i Hitler wneud gwaith da trwy fomio rhai o ddinasoedd Prydain. Cliriwyd llawer o slymiau yn barod at ail-ddatblygu, a dyna paham mae gan Coventry un o'r canol trefi gorau ym Mhrydain.

Gellir meddwl na allai neb mewn gwirionedd fod yn ddiolchgar am ddinistrio creulon fel hyn, hyd yn oed a'i fod o gymorth i'r gwaith ail-adeiladu. Ond fe welir yr un creulondeb yn llawer o gynlluniau'n Hawdurdodau Lleol ar gyfer tynnu tai i lawr a dinistrio cartrefi a chwalu cymdeithasau lleol.

Wrth gwrs, rhaid moderneiddio ac ail-ddatblygu llawer iawn o'n trefi, yn enwedig gyda golwg ar bwysau trafnidiaeth fodern. Ond rhaid gwneud y gwaith hwn gyda buddiannau'r bobl, y mae eu cartrefi a'u busnesau yn yr ardal sydd i'w datblygu, yn glir mewn cof. A rhaid trafod yr holl gynllun gyda hwynt—rhaid osgoi'r sefyllfa warthus a gododd yn Aberystwyth. Yno, y rhybudd gyntaf a gafodd amryw yn yr ardal oedd i'w datblygu fod neb yn ystyried y fath beth oedd llythyr yn dweud bod eu cartrefi i'w cymryd oddi arnynt'.

## Lladron Tir

**Mae llawer iawn o'r cynlluniau presennol yn tarddu o ddynion busnes o Loegr gydag awch am dir ac am arian—h.y. cwmniau eiddo sy'n gweld elw mawr iddynt eu hunain yn y gwaith datblygu hwn. Maent am gael gafael ar y tir yn rhad, ac felly nid ydynt yn prynu'r tir ar y farchnad agored—maent yn perswadio'r Awdurdod Lleol i brynu'r tir a'r eiddo yn orfodol am bris llai o lawer na'u gwerth yn y farchnad agored, ac wedyn mae'r cwmni yn cael y tir ar les rhad gan yr Awdurdod lleol.**

*Mae'r cwmni wedyn yn ail-adeiladu'r ardal, gan orfodi'r Cyngor lleol i dalu am unrhyw barciau neu 'ofod gwag' arall, a gosod y gweddill ar islesau drud iawn. Mae hyn bron yn ddi-eithriad yn cau allan y bobl a fu'n byw neu a fu â busnes yno o'r blaen, ac yn agor y drws i'r siopau cadwyn o Loegr, nad oes ganddynt unrhyw ddiddordeb yn yr ardal ond yn yr elw a ddeillia ohoni—ac am hynny, gallant yn hawdd gau i lawr mewn adeg economaidd anodd.*

Rhaid wrth ail-ddatblygu—ond rhaid iddo fod er lles y dref ei hun. Rhaid i'r Llywodraeth baratoi grantiau a benthyciadau hael iawn i'r Awdurdodau Lleol—neu i'r gwŷr busnes lleol ar y cyd ymgymryd â'r gwaith eu hunain.

## Addysg a Iaith

Rhaid gwella'r cyfleusterau addysg — ac yn enwedig addysg wyddonol a thechnegol a hyfforddiant cyfarwyddo busnes. Mae hon yn oes dechnegol a chyfarwyddol, ac os na wnawn ni hyfforddi'n pobl ifainc yn y pethau hyn, a sicrhau iddynt gyfle i ymarfer eu thalentau yng Nghymru wedyn, fe fydd Cymru'n dal i lusgo ar ôl cenhedloedd eraill.

Rhaid i'r ysgolion roi llawer iawn mwy o sylw i bynciau sydd yn baratoad at y fath gyrsiau; rhaid wrth fwy o ysgolion technegol o'r radd flaenaf, a rhaid wrth Goleg Techneg Uwch yn y gogledd tebyg i hwnnw yng Nghaerdydd.

**Rhaid dileu'r gyfundrefn 'cwota', sy'n cyfyngu ar nifer yr athrawon y mae hawl gan ein Hawdurdodau Lleol eu cyflogi. Rhaid i ni gael y rhyddid i roi gwaith i'r bobl ifainc a hyfforddir yn athrawon gennym.**

Ni all neb fod yn aelod hapus a gwerthfawr o gymdeithas oni fo'n aelod llawn ohoni—ac mae hynny'n golygu fod raid iddo ddeall y gymdeithas honno ac ymdeimlo â'i berthynas â hi *Yn ymarferol, golyga hyn fod raid dysgu hanes a llenyddiaeth Cymru ymhob ysgol yng Nghymru, a rhaid hyfforddi pob plentyn yn yr iaith Gymraeg fel y bo ganddo o leiaf ryw grap ar yr iaith.*

Wedi gwneud hyn, bydd yn bosibl i wneud y Gymraeg yn iaith gwbl swyddogol, gydradd â Saesneg—h.y. credwn y dylai fod gan bawb yng Nghymru yr hawl i ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg fel y mynno ar unrhyw fusnes swyddogol. Mae'n bwysig iawn, mewn oes dechnegol, i ni beidio â throi'n plant yn beiriannau sydd heb unrhyw ymdeimlad dynol ag anghenion eu cymdeithas.

## Y Celfyddydau

Rhaid wrth lawer iawn mwy o gefnogaeth i'r celfyddau yng Nghymru gan y Llywodraeth—ar hyn o bryd nid yw Cymru'n derbyn ond rhan fach iawn o'r cymorth ariannol enfawr a roddir i'r celfyddydau yn Lloegr—ac nid yw hynny ond yn fach iawn o'i gymharu â'r gefnogaeth a roir i'r celfyddydau mewn gwledydd eraill, bach a mawr.

Rhaid sefydlu Corfforaeth Ddarlledu ac Awdurdod Teledu Annibynnol i Gymru hefyd, gyda chyfrifoldeb am ddarlledu a theledu ar raddfa genedlaethol. Dylid symbylu hefyd orsafoedd radio lleol dan reolaeth gyhoeddus neu breifat er mwyn rhoi llais i anghenion a thueddiadau lleol.

## Y Dyfodol

Nid yw hyn yn rhestr gyflawn o'r pethau y mae eu hangen yng Nghymru. Mae'r angen am fwy o dai, a'r rheini am brisiau rhesymol (yn hytrach na'r holl addewidion am dai yn unig), mae'r angen am fwy a mwy o ysgolion ac ysbytai, mae hyn oll yn amlwg ddigon yng Nghymru. Ond ni allwn wneud pob dim ar unwaith. Rhaid dechrau ar y gwaith rywle.

**Credwn i ni restru'r pethau pwysicaf y rhaid i unrhyw lywodraeth sydd yn gyfrifol am les Cymru ymgymryd â hwy. Mae'n annhebyg iawn y byddo unrhyw lywodraeth yn Llundain yn barod i ymgymryd â'r lleiafswm yma o fesurau angenrheidiol. Yr unig ffordd i'w gorfodi i wneud dim yw pleidleisio'n ddi-amwys dros Gymru yn yr etholiad trwy bleidleisio gyda Phlaid Cymru—a phan ddelo'n amlwg nad ydynt yn fodlon neu nad ydynt yn gallu ymgymryd yn iawn â'r cyfan sydd i'w wneud yng Nghymru, wedyn rhaid i ni fynnu'n hawl i ymgymryd â'r gwaith ein hunain, a chyda'n gilydd**

# Adeiladu Cymru Newydd